

# CYFLWMI TWYLL

## Gweithgaredd 5 – Cyflwyniad Cyfoedion Camfanteisio'n Droseddol ar Blant

Gan ddefnyddio ein cynulliad Camfanteisio'n Droseddol o wefan SchoolBeat.cymru fel templed ac adnoddau eraill o Fearless.org, Barnado's a ChildLine, paratowch gyflwyniad am Gamfanteisio'n Droseddol ar Blant y gallech ei gyflwyno i'r grwpiau blwyddyn eraill neu i grwpiau llai o ddysgwyr. Gallech wahodd eich Swyddog Heddlu Cymuned yr Ysgol i ddod draw hefyd! Efallai yr hoffech ddilyn y fformat hwn:

1. Cyflwyniad	Teitl a llun
2. Nod.	Dangoswch yr hyn rydych yn mynd i'w drafod heddiw a'r hyn rydych eisiau i'r grŵp ei ddysgu erbyn diwedd y cyflwyniad.
3. Diffiniad o Gamfanteisio'n Droseddol ar Blant – weithiau cyfeirir ato fel Llinellau Cyffuriau.	Beth yw camfanteisio'n droseddol ar blant a adwaenir weithiau fel Llinellau Cyffuriau?
4. Eglurwch yn syml yr hyn mae ei gynnwys.	Lluniwch sleid syml i egluro'r hyn ydyw gan ddefnyddio geiriau a lluniau syml.
5. Sut mae plant a phobl ifanc yn dod i gysylltiad?	Eglurwch sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu 'rhwydo' i ddod yn aelodau o gang. Eglurwch fod Cannabis yn cael ei ddefnyddio fel cyffur porth yn aml.
6. Arwyddion posibl o Gamfanteisio Troseddol y gall disgyblion eraill ac athrawon gadw llygad amdanynt.	Disgrifiwch yr arwyddion i gadw llygad amdanynt.
7. Lle i gael cymorth.	Cyfeiriwch ddisgyblion tuag at asiantaethau fel Meiccymru.org, Fearless, Barnado's, ChildLine a SchoolBeat lle gallent gael cymorth.

Ewch ar <https://schoolbeat.cymru/cy/partneriaid/llinellau-sirol/>

am gopi o'n Cyflwyniad Cynulliad y gallwch ei ddefnyddio fel templed.

**POB LWC!**

